| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Derbyniadau - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | *Staff y Feithrinfa* | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | - |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 15/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

1. Mae Meithrinfa Toybox wedi'i chofrestru ar gyfer 106 o blant rhwng 12 wythnos a 5 oed.

2. Mae'r uchod yn unol â'r gofynion gofod cyfreithiol o ganllawiau statudol e.e. NMS, a dyma'r polisi cyffredinol o ran derbyniadau.

3. Mae Meithrinfa Toybox yn rhan o Goleg Cambria ac felly rhoddir blaenoriaeth i blant myfyrwyr a staff.

4. Materion eraill sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu pa blentyn y gellir cynnig lle iddo yn y feithrinfa yw:

    4.1. Lleoedd sydd ar gael, gan ystyried y gymhareb staff:plant, oedran y plentyn a'r gofynion cofrestru

    4.2. Plant sydd â brodyr a chwiorydd sydd eisoes gyda ni

    4.3. Pan fyddwn yn cael y cais (rhoddir pwysau ychwanegol i'r rhai sydd wedi bod ar y rhestr aros hiraf)

    4.4. Gallu'r feithrinfa i ddarparu'r cyfleusterau er lles y plentyn, gan gynnwys trefniadau staffio priodol

    4.5. Efallai y bydd gan blentyn sydd angen lle llawn amser flaenoriaeth dros un sydd angen lle rhan-amser. Mae hyn yn dibynnu ar ymrwymiadau gwaith, nifer yr ystafelloedd sydd ar gael ac argaeledd ystafelloedd.

    4.6. Amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar les y plentyn neu les ei deulu.

5. Rydym yn gweithredu polisi cynhwysiant a chydraddoldeb ac yn sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at leoedd a gwasanaethau meithrinfa waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol eu rhieni.

6. Cyn i blentyn ddechrau mynd i'r feithrinfa, rhaid i rieni lenwi a llofnodi contract a ffurflen gofrestru. Mae'r ffurflenni hyn yn rhoi manylion personol sy'n ymwneud â'r plentyn i'r feithrinfa. Er enghraifft, enw, dyddiad geni, cyfeiriad, manylion cyswllt brys, cyfrifoldebau rhieni, gofynion dietegol, trefniadau casglu, ffioedd a sesiynau, manylion cyswllt rhieni, manylion cyswllt meddyg, manylion cyswllt ymwelydd iechyd, alergeddau, caniatâd rhieni a brechiadau ac ati.

7. **Cynnig Gofal Plant i Gymru. (Addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu am 30 awr)**

    7.1. Ym Meithrinfa Toybox rydym ar hyn o bryd yn darparu lleoedd wedi'u hariannu o dan y Cynnig Gofal Plant i Gymru i blant 3-4 oed am 48 wythnos y flwyddyn, yn amodol ar argaeledd. Bydd y lleoedd hyn yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin a gellir eu harchebu tymor ymlaen llaw.

    7.2. Dechrau'n Deg

    7.3. Ym Meithrinfa Toybox rydym yn darparu lleoedd sy'n cael eu hariannu ar gyfer Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Mae'r gofal plant sydd ar gael trwy Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy i dair oed. Mae'n cynnwys 12.5 awr yr wythnos, am 39 wythnos y flwyddyn, o ofal plant o ansawdd uchel wedi'i ariannu.

    7.4. Mae'r holl sesiynau sy'n cael eu hariannu a'u darparu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Pan fyddwch chi'n cofrestru'ch plentyn ar gyfer ei le wedi'i ariannu, byddwn ni'n trafod eich anghenion a, chyn belled ag y bo modd o ran argaeledd a threfniadau staffio, byddwn ni'n darparu ar gyfer eich dymuniadau. Rydym yn cadw'r hawl i gyfyngu a/neu gael sesiynau penodol wedi'u hariannu yn unol â gofynion ein busnes.